Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 38/2012

www.cymru.gov.uk

# Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau:
## Arolwg Llinell Sylfaen 2012

# Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau:

Arolwg Llinell Sylfaen 2012

**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**

**Llywodraeth Cymru**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3411

E-bost: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012

ISBN 978 0 7504 8146 5

© Hawlfraint y Goron 2012

## Tabl cynnwys


Rhestr o'r Tablau a'r Ffigurau 4

**Prif ganfyddiadau 6**

**1. Cyflwyniad 9**

1.1 Y Cefndir 9

1.2 Gair am yr adroddiad hwn 9

1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol 9

**2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau 10**

2.1 Dealltwriaeth o'r system rhoi organau bresennol 10

2.2 Ymwybyddiaeth, heb awgrymu, o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau 10

2.3 Ffynhonnell o ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau 12

2.4 Dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau 12

2.5 Ymwybyddiaeth o fanylion cynnig Llywodraeth Cymru i newid y system rhoi organau 13

**3. Agweddau ar newidiadau i'r system rhoi organau 16**

3.1 Lefelau'r gefnogaeth ar gyfer system optio allan 16

3.2 Rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan 18

**4. Datganiadau am y system feddal o optio allan o roi organau 20**

4.1 'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' 21

4.2 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' 21

4.3 'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny' 22

4.4 ‘Mae’r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i’r llywodraeth’ 23

**5. Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau 25**

5.1 Ymddygiad ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd 27

**6. Rôl y teulu mewn rhoi organau 28**

Atodiad A: Methodoleg 31

Atodiad B: Yr Holiadur (Saesneg yn unig) 35

## Rhestr o Dablau a Ffigurau

### Tablau


| | | |
|---|---|---|
| Tabl 2.1 | Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl mae'r system bresennol o roi organau yn gweithio – hynny yw, sut ydych chi'n meddwl mae organau'n cael eu rhoi? | 10 |
| Tabl 2.2 | Ydych chi'n gwybod am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau? | 10 |
| Tabl 2.3 | Sut oeddech chi'n gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau bresennol? | 12 |
| Tabl 2.4 | Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl y gallai'r system newid? | 13 |
| Tabl 2.5 | Cyn heddiw, oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn? | 13 |
| Tabl 3.1 | Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau? | 16 |
| Tabl 3.2 | Allwch chi ddweud wrtha i pam eich bod O BLAID newid i system optio allan? | 18 |
| Tabl 3.3 | Allwch chi ddweud wrtha i pam eich bod YN ERBYN newid i system optio allan? | 19 |
| Tabl 5.1 | Os cyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei wneud? | 25 |
| Tabl 6.1 | Adeg marwolaeth, pa un o'r rhain ydych chi'n meddwl ddylai fod yn berthnasol yng nghyswllt rhoi organau? | 28 |
| Tabl 6.2 | Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl i chi farw ag aelod o'r teulu? | 28 |
| Tabl 6.3 | Petaech chi'n marw, ydych chi'n meddwl y byddai aelod o'ch teulu'n gwybod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau? | 28 |
| Tabl A.1 | Diffiniad o'r rhanbarthau | 32 |
| Tabl A.2 | Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol | 33 |
| Tabl A.3 | Niferoedd is-sampl yn ôl rhanbarth, oed, rhyw a graddfa gymdeithasol | 34 |

**Ffigurau**


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 2.1 | Ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth | 11 |
| Ffigur 2.2 | Ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl oed | 11 |
| Ffigur 2.3 | Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn ôl rhanbarth | 14 |
| Ffigur 2.4 | Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn ôl oed | 14 |
| Ffigur 3.1 | O blaid neu yn erbyn newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth | 17 |
| Ffigur 3.2 | O blaid neu yn erbyn newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl oed | 17 |
| Ffigur 4.1 | Datganiadau am y system feddal o optio allan o roi organau | 20 |
| Ffigur 4.2 | 'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' yn ôl rhanbarth | 21 |
| Ffigur 4.3 | 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' yn ôl rhanbarth | 22 |
| Ffigur 4.4 | 'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny' yn ôl rhanbarth | 23 |
| Ffigur 4.5 | 'Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth' yn ôl rhanbarth | 24 |
| Ffigur 5.1 | Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl rhanbarth | 26 |
| Ffigur 5.2 | Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl graddfa gymdeithasol | 26 |
| Ffigur 6.1 | Byddai aelod o'r teulu yn gwybod am y dymuniadau yn ôl rhanbarth | 29 |
| Ffigur 6.2 | Byddai aelod o'r teulu yn gwybod am y dymuniadau yn ôl oed | 30 |

## Y prif ganfyddiadau

- Gofynnwyd cwestiynau am roi organau i 1,006 o bobl a gafodd gyfweliad fel rhan o don mis Mehefin 2012 Arolwg Omnibws Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd.

- Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r canfyddiadau llinell sylfaen ar gyfer monitro newidiadau yn agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system rhoi organau. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at sut caiff ymgyrch cyfathrebu ei thargedu ymysg grwpiau gwahanol o'r boblogaeth.

### Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru i newid y system rhoi organau

- Ar ôl iddynt weld disgrifiad o gynnig Llywodraeth Cymru, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (58 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau.

- Roedd ymwybyddiaeth o'r cynnig ar ei huchaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru lle'r oedd dwy ran o dair (67 y cant) o'r ymatebwyr wedi gweld neu glywed rhywbeth am y cynnig.

- Roedd yr ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymysg:

    - pobl rhwng 16 a 34 oed;
    - Dynion; ac
    - Ymatebwyr o raddfeydd cymdeithasol is.

### Agweddau ar newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid, neu yn erbyn, newid i system optio allan ar gyfer rhoi organau, neu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu. Roedd tua hanner yr ymatebwyr (49 y cant) o blaid newid i system optio allan o roi organau, ac roedd llai na chwarter (22 y cant) yn erbyn. Dywedodd 21 arall fod angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu, ac nid oedd 8 y cant yn gwybod.

- O'r rheini a oedd o blaid, y rhesymau a roddwyd amlaf oedd y byddai'r system feddal o optio allan yn arwain at achub rhagor o fywydau, ac y byddai rhagor o organau ar gael i'w rhoi.

- O'r rheini a oedd yn erbyn y newidiadau, y rhesymau a roddwyd amlaf oedd ei fod yn tynnu'r dewis oddi ar yr unigolyn.

- Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiadau:

    - 'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' (roedd 68 y cant yn cytuno; roedd 25 y cant yn niwtral; roedd 7 y cant yn anghytuno); ac

  - ‘Mae’r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny’ (roedd 67 y cant yn cytuno; roedd 20 y cant yn niwtral; roedd 13 y cant yn anghytuno).

- Roedd tua phedwar ymatebydd o bob deg yn cytuno â’r datganiadau:

  - ‘Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny’ (roedd 38 y cant yn cytuno; roedd 28 y cant yn niwtral; roedd 33 y cant yn anghytuno); a

  - ‘Mae’r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i’r llywodraeth’ (roedd 42 y cant yn cytuno; roedd 22 y cant yn niwtral; roedd 35 y cant yn anghytuno).

**Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau**

- Gofynnwyd i’r holl ymatebwyr beth fyddent yn ei wneud petai’r system feddal newydd o optio allan o roi organau yn cael ei chyflwyno. O dan y system newydd:

  - mae 63 y cant yn meddwl na fyddent yn optio allan (neu aros wedi optio i mewn)
  - mae 19 y cant yn meddwl y byddent yn optio allan
  - nid oedd 18 y cant yn gwybod

- Ym mhob rhanbarth roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn meddwl na fyddent yn optio allan (neu byddent yn aros wedi optio i mewn). Fodd bynnag, roedd y gyfran o ymatebwyr sy’n meddwl y byddent yn optio allan yn amrywio o un o bob deg yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru i oddeutu chwarter ym Mae Abertawe a’r Cymoedd.

- Roedd gwahaniaeth rhwng graddfeydd cymdeithasol hefyd. Dywedodd cyfran fwy o’r ymatebwyr C2DE (22 y cant) na’r ymatebwyr ABC1 (15 y cant) eu bod yn meddwl y byddent yn optio allan.

**Rôl y teulu mewn rhoi organau**

- Dywedodd bron i dri chwarter (73 y cant) o’r ymatebwyr y dylid parchu dymuniadau’r sawl sydd wedi marw ynghylch rhoi organau, ni waeth beth mae’r teulu’n ei feddwl, a dywedodd 22 y cant mai’r teulu ddylai gael y gair olaf.

- Gyda’i gilydd, dywedodd 62 y cant o’r ymatebwyr nad oeddent erioed wedi trafod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl iddynt farw ag aelod o’u teulu. Fodd bynnag, dywedodd yr un gyfran y byddai aelod o’r teulu yn gwybod beth oedd eu dymuniadau o ran rhoi organau petaent yn marw.

- Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod rhoi organau ag aelod o’r teulu yn tueddu i fod yn is ymysg:

    - pobl rhwng 16 a 34 oed;
    - Dynion; ac
    - Ymatebwyr o raddfeydd cymdeithasol is.

- Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn meddwl y byddai aelod o’u teulu yn gwybod am eu dymuniadau o ran rhoi organau petaent yn marw yn tueddu i fod yn is ymysg:

    - Ymatebwyr ym Mae Abertawe;
    - pobl rhwng 16 a 34 oed; ac
    - Ymatebwyr o raddfeydd cymdeithasol is.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Y Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn bwriadu cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau drwy Fil Trawsblannu Dynol (Cymru). Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn golygu, os na fydd unigolyn yn datgan fel arall, y bydd ei organau a'i feinweoedd ar gael i'w trawsblannu ar ôl iddo farw. Ymgynghorir â pherthnasau yn yr un modd ag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch cyfathrebu i sicrhau bod pobl Cymru yn ymwybodol o'r gyfraith newydd ac yn ei deall a'u bod yn gwybod sut mae cofrestru eu gwrthwynebiad os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch, mae angen gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfraith rhoi organau, ac agweddau ar newidiadau i'r ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Er mwyn diwallu'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Bydd data'n cael ei gasglu'n rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016. Bydd y gwaith monitro parhaus hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i asesu effeithiolrwydd yr ymgyrch cyfathrebu.

## 1.2 Gair am yr adroddiad hwn

Gofynnwyd cwestiynau am roi organau i 1,006 o bobl a gafodd gyfweliad fel rhan o don mis Mehefin 2012 Arolwg Omnibws Cymru. Mae'r arolwg wedi cael ei gynllunio i gynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli'r canlyniadau'n ffeithiol, ac mae'n cyflwyno'r canfyddiadau llinell sylfaen er mwyn gallu monitro newidiadau yn agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system rhoi organau – nid yw'n edrych ar gysylltiadau achlysurol. Bydd y dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at sut caiff yr ymgyrch cyfathrebu ei thargedu ymysg grwpiau gwahanol o'r boblogaeth.

## 1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol

Cynhaliwyd prawf arwyddocâd o'r data yn y dadansoddiad i helpu i ddehongli'r canlyniadau ac i gyfrannu at yr ymgyrch cyfathrebu. Pan ddisgrifir bod gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hynny'n golygu bod y tebygolrwydd o ddod i'r canfyddiad hwnnw ar hap yn llai nag un mewn 20 – hy mae'n debyg o adlewyrchu perthynas go iawn yn y boblogaeth[1]. Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg ar gael yn Atodiad A. Mae'r holiadur llawn ynghlwm yn Atodiad B.

---

[1] Pan fydd data arolwg yn cael ei brofi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplo cwota cyfrannol, ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol go iawn, a bod yn fanwl gywir. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar y lefel cyfwng 95 y cant.

# 2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

## 2.1 Dealltwriaeth o'r system rhoi organau bresennol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut roedden nhw'n meddwl bod y system rhoi organau bresennol yn gweithio. Yr atebion mwyaf cyffredin a gafwyd oedd bod angen i unigolion gadw cerdyn rhoi, optio i mewn neu gofrestru fel rhoddwr. Fodd bynnag, dywedodd chwarter o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod (Tabl 2.1).

**Tabl 2.1: Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl mae'r system bresennol o roi organau yn gweithio?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---|
| Cadw cerdyn rhoi | 41 |
| Optio i mewn / cofrestru | 31 |
| *Ddim yn gwybod* | *25* |
| Caniatâd gan y teulu / y teulu sy'n penderfynu | 6 |
| **Ymatebion eraill gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| System optio allan | |
| Defnyddio organau'r rheini sydd wedi marw | |
| *Arall* | |

Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

## 2.2 Ymwybyddiaeth, heb awgrymu, o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu, os oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn gwybod am newid arfaethedig (Tabl 2.2).


**Tabl 2.2: Ydych chi'n gwybod am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---|
| Ydw | 53 |
| Nac ydw | 46 |
| *Ddim yn gwybod* | *1* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Roedd perthynas arwyddocaol rhwng rhanbarthau ac ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau arfaethedig. Fel y gwelir yn Ffigur 2.1, roedd ymwybyddiaeth ar ei huchaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, lle'r oedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn gwybod am y newid arfaethedig. Ym mhob rhanbarth arall, roedd tua hanner yr ymatebwyr yn ymwybodol.


**Ffigur 2.1: Ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Roedd perthynas arwyddocaol rhwng yr ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau arfaethedig ac oed. Fel y gwelir yn Ffigur 2.2, roedd ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig ar ei hisaf ymysg y categori oed ieuengaf (16 i 34 oed).

**Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl oed**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol hefyd yn ôl graddfa gymdeithasol, gyda 63 y cant o'r ymatebwyr ABC1 yn ymwybodol o'r newid arfaethedig, o'i gymharu â 46 y cant o'r ymatebwyr C2DE. Nid oedd dim gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran y dynion a menywod a oedd yn ymwybodol o'r newid arfaethedig.

## 2.3 Ffynhonnell o ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau

O'r rheini a oedd yn ymwybodol o newid arfaethedig i'r system rhoi organau, dywedodd tri chwarter eu bod wedi cael gwybod amdano drwy raglen newyddion neu raglen arall ar y teledu, ac roedd un o bob deg wedi clywed amdano ar raglen newyddion neu raglen arall ar y radio (Tabl 2.3).

**Tabl 2.3: Sut oeddech chi'n gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau bresennol?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---:|
| Ar y teledu (newyddion / rhaglen) | 76 |
| Ar y radio (newyddion / rhaglen) | 10 |
| Rhywun wedi dweud wrtha i | 8 |
| Papur newydd lleol (erthygl newyddion) | 7 |
| Papur newydd cenedlaethol yng Nghymru (erthygl newyddion) | 6 |
| Ar y teledu (hysbysebion) | 6 |
| **Ymatebion eraill a gan lai na 6 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| Yn y gwaith | |
| Taflen | |
| Papur newydd lleol (hysbysebion) | |
| Papur newydd cenedlaethol y DU (erthygl newyddion) | |
| Ar y radio (hysbysebion) | |
| *Arall* | |

Sail: Yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau (536 o ymatebwyr).
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

## 2.4 Dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newid arfaethedig sut roeddent yn meddwl y gallai'r system newid. Dywedodd saith ymatebydd o bob deg y byddai'n newid i system optio allan, neu system cydsyniad tybiedig (Tabl 2.4).

**Tabl 2.4: Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl y gallai'r system newid?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---|
| Optio allan / cydsyniad tybiedig | 69 |
| Gorfodol | 7 |
| Angen cadw cerdyn optio allan | 5 |
| *Ddim yn gwybod* | *12* |
| **Ymatebion eraill gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| Y teulu fydd yn penderfynu | |
| Optio i mewn | |
| *Arall* | |

Sail: Yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau (536 o ymatebwyr).
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

## 2.5 Ymwybyddiaeth o fanylion cynnig Llywodraeth Cymru i newid y system rhoi organau

Dangoswyd disgrifiad i'r holl ymatebwyr o'r system rhoi organau newydd sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cymru[2] a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y cynnig. Fel y gwelir yn Nhabl 2.5, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (58 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid arfaethedig.

**Tabl 2.5: Cyn heddiw, oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn?** *(Dangosir disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)*

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---|
| Oeddwn | 58 |
| Nac oeddwn | 41 |
| *Ddim yn gwybod* | *1* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.


Roedd perthynas arwyddocaol rhwng rhanbarthau ac ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru. Roedd ymwybyddiaeth ar ei huchaf yng

[2] Dangoswyd y disgrifiad canlynol i'r ymatebwyr:

"Yng Nghymru, mae'r llywodraeth yn ystyried newid y drefn o roi organau i system 'feddal o optio allan'. Bydd hyn yn golygu y bydd pobl yn cael cyfle i 'optio allan' yn ffurfiol o roi organau drwy roi eu henw ar gofrestr. Os byddant yn dewis peidio â gwneud hynny, a hwythau wedi cael y cyfle, yna bydd hyn yn cael ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, ac yn benderfyniad y bydd teuluoedd yn cael eu hannog yn sensitif i'w dderbyn. Bydd y cyfle i 'optio i mewn' a chofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr yn parhau."

Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, lle'r oedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r cynnig (Ffigur 2.3).


**Ffigur 2.3: Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Roedd perthynas arwyddocaol rhwng oed ac ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru. Fel y gwelir yn Ffigur 2.4, roedd tua thraean o bobl 16-34 oed yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Mae hyn yn cymharu ag oddeutu dwy ran o dair o bobl 35-54 oed, a bron i dri chwarter o'r ymatebwyr dros 55+ oed.

**Ffigur 2.4: Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn ôl oed**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Roedd cyfran uwch o lawer o fenywod (62 y cant) wedi gweld neu glywed rhywbeth am gynnig Llywodraeth Cymru na dynion (53 y cant).

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng graddfeydd cymdeithasol hefyd, gyda dwy ran o dair o’r ymatebwyr ABC1 (67 y cant) wedi gweld neu glywed rhywbeth am gynnig Llywodraeth Cymru o’i gymharu â hanner (50 y cant) yr ymatebwyr C2DE.

# 3. Agweddau ar newidiadau i'r system rhoi organau

## 3.1 Lefelau'r gefnogaeth ar gyfer system optio allan

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid, neu yn erbyn, newid i system optio allan o roi organau, neu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu.

Fel y gwelir yn Nhabl 3.1, roedd tua hanner yr ymatebwyr o blaid newid i system optio allan o roi organau, ac roedd llai na chwarter yn erbyn. Dywedodd tua un ymatebydd o bob pump bod angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu (Tabl 3.1).

**Tabl 3.1: Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---:|
| Rwyf **o blaid** newid i system lle bydd pobl yn optio allan o roi organau yn hytrach nag optio i mewn | 49 |
| Rwyf **yn erbyn** newid i system lle bydd pobl yn optio allan o roi organau yn hytrach nag optio i mewn | 22 |
| Mae angen rhagor o wybodaeth arna i er mwyn penderfynu | 21 |
| *Ddim yn gwybod* | *8* |


Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Ym mhob rhanbarth yng Nghymru, roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newid arfaethedig yn fwy na'r gyfran o ymatebwyr a oedd yn ei erbyn (Ffigur 3.1), er bod gwahaniaethau arwyddocaol.

Roedd y gefnogaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau ar ei huchaf yng Ngogledd Cymru, lle'r oedd 57 o'r ymatebwyr o blaid (roedd 21 y cant heb benderfynu neu ddim yn gwybod, ac roedd 22 y cant yn erbyn).

Roedd y gefnogaeth isaf ym Mae Abertawe, lle'r oedd 42 y cant o blaid (roedd 29 y cant heb benderfynu neu ddim yn gwybod, ac roedd 29 y cant yn erbyn).


**Ffigur 3.1: O blaid neu yn erbyn newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newid arfaethedig yn uwch na'r gyfran o ymatebwyr a oedd yn erbyn ar draws pob categori oed (Ffigur 3.2), er bod gwahaniaethau arwyddocaol. Ym mhob categori oed, roedd tua hanner yr ymatebwyr o blaid y newidiadau arfaethedig, ond roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn erbyn y newid ar ei huchaf ymysg ymatebwyr dros 55+ oed.

**Ffigur 3.2: O blaid neu yn erbyn newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl oed**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Nid oedd dim gwahaniaeth arwyddocaol yn y gefnogaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig yn ôl rhyw.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng graddfeydd cymdeithasol, gyda'r gefnogaeth yn uwch ymysg graddfeydd cymdeithasol ABC1 (56 y cant o blaid; 27 y cant heb benderfynu neu ddim yn gwybod; a 17 y cant yn erbyn) na C2DE (44 y cant o blaid; 31 y cant heb benderfynu neu ddim yn gwybod; a 25 y cant yn erbyn).

### 3.2 Rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddweud pam eu bod o blaid, neu yn erbyn, newid i system optio allan o roi organau.

Ymysg y rheini a oedd o blaid, y rhesymau a roddwyd amlaf oedd y byddai'n arwain at achub rhagor o fywydau, ac y byddai rhagor o organau ar gael i'w rhoi (Tabl 3.2). Ymysg y rheini a oedd yn erbyn y newidiadau, y rheswm a roddwyd amlaf oedd ei fod yn tynnu'r dewis oddi ar yr unigolyn (Tabl 3.3).

**Tabl 3.2: Allwch chi ddweud wrtha i pam eich bod O BLAID newid i system optio allan?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---|
| Achub bywydau | 21 |
| Cynyddu'r rhoddwyr / organau sydd ar gael | 20 |
| O fudd i bobl eraill / helpu pobl | 10 |
| Y peth iawn i'w wneud / peth da | 9 |
| Dydy pobl ddim yn trafferthu optio i mewn | 8 |
| Haws / symlach | 6 |
| **Ymatebion eraill gan lai na 6 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| Does dim angen organau arnoch ar ôl i chi farw | |
| Mae'n dal yn bosibl optio allan | |
| Mae angen rhagor o organau | |
| *Arall* | |

Sail: Yr holl ymatebwyr a oedd o blaid newid i system lle bydd pobl yn optio allan o roi organau yn hytrach nag yn optio i mewn (495 o ymatebwyr).
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

**Tabl 3.3: Allwch chi ddweud wrtha i pam eich bod YN ERBYN newid i system optio allan?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---|
| Diddymu'r dewis / mynd allan o reolaeth yr unigolyn | 27 |
| Cred bersonol / ddim yn cytuno | 14 |
| Efallai na fydd pobl yn gwybod am y system (ac felly nid oes dewis yn cael ei wneud) | 10 |
| Efallai fydd pobl ddim yn trafferthu ei wneud / rhy brysur / anghofio | 10 |
| **Ymatebion eraill gan lai na 10 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| Ddim yn cytuno â rhoi organau | |
| Cred bersonol | |
| Mae'n well gen i'r system bresennol | |
| *Arall* | |

Sail: Yr holl ymatebwyr a oedd yn erbyn newid i system lle bydd pobl yn optio allan o roi organau yn hytrach nag yn optio i mewn (219 o ymatebwyr).
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd fod angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu a oeddent o blaid neu yn erbyn y newidiadau arfaethedig (215 o ymatebwyr) pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt. Yr ymateb a gafwyd amlaf, a roddwyd gan 40 y cant o'r ymatebwyr hynny, oedd bod arnynt angen rhagor o fanylion am sut y byddai'r system newydd yn gweithio (Ni ddangosir y tabl).

## 4. Datganiadau am y system feddal o optio allan o roi organau


Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol (roedd dau wedi'u geirio'n gadarnhaol ac roedd dau wedi'u geirio'n negyddol) am y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau:

- Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau
- Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny
- Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny
- Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth

Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno 'bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' ac 'mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'.

Roedd tua phedwar ymatebydd o bob deg yn cytuno 'mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth' ac 'mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' (Ffigur 4.1).

**Ffigur 4.1: Datganiadau am y system feddal o optio allan o roi organau [a, b]**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Mae'r categori 'Cytuno' yn cynnwys 'Cytuno'n gryf' a 'Chytuno'. Mae'r categori 'Anghytuno' yn cynnwys 'Anghytuno'n gryf' ac 'Anghytuno'. Mae'r categori 'Niwtral' yn cynnwys 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' a 'Ddim yn gwybod'.
(b) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.


### 4.1 'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau'

Roedd perthynas arwyddocaol rhwng rhanbarthau a chytuno neu anghytuno â'r datganiad 'bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau'.

Fel y gwelir yn Ffigur 4.2, roedd y gyfran a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn uchaf yng Ngogledd Cymru (78 y cant) ac isaf ym Mae Abertawe (61 y cant).

Fodd bynnag ar draws pob rhanbarth roedd y gyfran a oedd yn cytuno y bydd y system feddal o optio allan yn arwain at achub rhagor o fywydau yn fwy o lawer na'r gyfran a oedd yn anghytuno.

**Ffigur 4.2: 'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.


Nid oedd dim gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oed na rhyw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng graddfeydd cymdeithasol, gyda 74 y cant o'r ymatebwyr mewn graddfeydd cymdeithasol ABC1 yn cytuno â'r datganiad o'i gymharu â 63 y cant yn C2DE (roedd 7 y cant o'r ymatebwyr ar draws y naill gategori graddfa gymdeithasol a'r llall yn anghytuno).

### 4.2 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny'

Fel y gwelir yn Ffigur 4.3 (isod), roedd perthynas arwyddocaol rhwng rhanbarthau a chytuno neu anghytuno â'r datganiad 'mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny'.

Roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad nag yn anghytuno ag ef yng Ngogledd Cymru, Bae Abertawe a'r Cymoedd; ond roedd cyfran fwy yn anghytuno â'r datganiad nag yn cytuno ag ef yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a Chaerdydd a De Ddwyrain Cymru.

**Ffigur 4.3: 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.


Nid oedd dim gwahaniaethau arwyddocaol rhwng oed na rhyw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng graddfeydd cymdeithasol. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr mewn graddfeydd cymdeithasol C2DE yn cytuno â'r datganiad (41 y cant) nag yn anghytuno (28 y cant); ond roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr yng ngraddfeydd cymdeithasol ABC1 yn anghytuno â'r datganiad (40 y cant) nag yn cytuno (35 y cant).

### 4.3 'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'

Roedd perthynas arwyddocaol rhwng rhanbarthau a chytuno neu anghytuno â'r datganiad 'mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'.

Roedd y gyfran uchaf a oedd yn cytuno â'r datganiad yng Ngogledd Cymru (79 y cant) a'r isaf yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru (60 y cant). Fodd bynnag, ar draws pob rhanbarth roedd y gyfran a oedd yn cytuno bod rhyddid dewis yn cael ei gynnal yn uwch o lawer na'r gyfran a oedd yn anghytuno (Ffigur 4.4).

**Ffigur 4.4: ‘Mae’r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny’ yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.


Nid oedd dim perthynas arwyddocaol yn ôl oed. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw a graddfa gymdeithasol. At ei gilydd, roedd 71 y cant o fenywod yn cytuno â’r datganiad o’i gymharu â 64 y cant o ddynion; ac roedd 74 y cant o’r ymatebwyr ABC1 yn cytuno o’i gymharu â 62 y cant o’r ymatebwyr C2DE.

### 4.4 ‘Mae’r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i’r llywodraeth’

Roedd perthynas arwyddocaol rhwng rhanbarthau a chytuno â’r datganiad ‘mae’r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i’r llywodraeth’.

Fel y gwelir yn Ffigur 4.5, roedd cyfran uwch o’r ymatebwyr yn cytuno â’r datganiad hwn nag oedd yn anghytuno ar draws pob rhanbarth ac eithrio Canolbarth a Gorllewin Cymru. Fodd bynnag, dim ond gwahaniaeth bach sydd rhwng cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â’r datganiad yng Ngogledd Cymru a Chaerdydd a De Ddwyrain Cymru.

**Ffigur 4.5: 'Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth' yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Nid oedd dim gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oed na rhyw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl graddfa gymdeithasol. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr C2DE (47 y cant) yn cytuno bod y system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth na'r ymatebwyr ABC1 (38 y cant). Roedd bron i draean (29 y cant) o'r ymatebwyr C2DE yn anghytuno o'i gymharu â bron i hanner (47 y cant) o'r ymatebwyr ABC1.

## 5. Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth fyddent yn ei wneud petai'r system feddal newydd o optio allan o roi organau yn cael ei chyflwyno. At ei gilydd, dywedodd 63 y cant o'r ymatebwyr na fyddent yn optio allan (neu byddent yn aros wedi optio i mewn), a dywedodd 19 y cant y byddent yn optio allan. Dywedodd 18 y cant arall nad oeddent yn gwybod (Tabl 5.1).

**Tabl 5.1: Os cyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei wneud?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** [a] |
|---|---|
| Aros ar y gofrestr **optio i mewn** | 20 |
| Ddim wedi optio i mewn ar hyn o bryd, ond ddim yn meddwl y byddwn i'n optio allan | 42 |
| **Optio allan** o'r gofrestr rhoddwyr organau | 19 |
| *Ddim yn gwybod* | *18* |


Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Roedd perthynas arwyddocaol rhwng rhanbarthau a beth roedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddent yn ei wneud o dan system optio allan newydd. Fel y gwelir yn Ffigur 5.1, roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn meddwl y byddent yn optio allan yn amrywio o un o bob deg yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru i oddeutu chwarter ym Mae Abertawe a'r Cymoedd.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn dweud nad oeddent yn gwybod beth fyddent yn ei wneud yn amrywio rhwng 7 y cant yng Ngogledd Cymru i bron i draean yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru.

Ym mhob rhanbarth, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn meddwl y byddent yn aros wedi optio i mewn neu'n gwneud dim.

**Ffigur 5.1: Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl rhanbarth [a]**





Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Nid oedd dim gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oed na rhyw o ran beth roedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddent yn ei wneud petai'r system newydd o optio allan yn cael ei chyflwyno.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl graddfa gymdeithasol. Fel y gwelir yn Ffigur 5.2, dywedodd cyfran uwch o'r ymatebwyr C2DE (22 y cant) na'r ymatebwyr ABC1 (15 y cant) y byddent yn optio allan.

**Ffigur 5.2: Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl graddfa gymdeithasol [a]**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pam eu bod yn meddwl y byddent yn dewis optio allan, aros wedi optio i mewn, neu wneud dim. Ym mhob achos, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod, neu nid oeddent yn gallu rhoi rheswm (ni ddangosir y tabl).

### 5.1 Ymddygiad ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd

Ymysg yr ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd (24 y cant o'r holl ymatebwyr)[3]:

- Dywedodd 87 y cant y byddent yn aros ar y gofrestr;
- Byddai 2 y cant yn optio allan; ac
- Nid oedd 11 y cant yn gwybod.

[3] Yn ôl Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, roedd 31 y cant o boblogaeth Cymru ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau ar 31 Mawrth 2012. Nid yw'r rheswm dros y gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn yn glir, er bod ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (2012) yn awgrymu nad yw rhai pobl sydd â cherdyn rhoi bob tro'n siŵr a ydynt ar y gofrestr ai peidio. Gweler http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/organdonation/

## 6. Rôl y teulu mewn rhoi organau

Gofynnwyd cwestiynau am rôl y teulu mewn rhoi organau. Dywedodd bron i dri chwarter o'r ymatebwyr y dylid parchu dymuniadau'r sawl a oedd wedi marw am roi organau, ni waeth beth mae'r teulu yn ei feddwl (Tabl 6.1). Nid oedd dim gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oed, rhyw na graddfa gymdeithasol.

**Tabl 6.1: Adeg marwolaeth, pa un o'r rhain ydych chi'n meddwl ddylai fod yn berthnasol yng nghyswllt rhoi organau?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---:|
| Dylai'r **teulu** gael y gair olaf ynghylch a ddylid rhoi organau'r sawl sydd wedi marw ai peidio | 22 |
| Dylid parchu **dymuniadau'r sawl sydd wedi marw** ynghylch rhoi ei organau ai peidio, ni waeth beth mae'r teulu'n ei feddwl | 73 |
| *Ddim yn gwybod* | *5* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Fel y gwelir yn Nhabl 6.2, dywedodd 62 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent erioed wedi trafod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl marw ag aelod o'r teulu. Fodd bynnag, dywedodd yr un gyfran eu bod yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau petaent yn marw (Tabl 6.3).

**Tabl 6.2: Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl i chi farw ag aelod o'r teulu?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---:|
| Do | 38 |
| Naddo | 62 |

Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

**Tabl 6.3: Petaech chi'n marw, ydych chi'n meddwl y byddai aelod o'ch teulu'n gwybod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau?**


| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---:|
| Ydw | 62 |
| Nac ydw | 34 |
| *Ddim yn gwybod* | *5* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Ar draws pob rhanbarth roedd cyfran debyg o ymatebwyr wedi trafod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau ag aelod o'r teulu. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol o ran a oedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod am eu dymuniadau petaent yn marw.

Fel y gwelir yn Ffigur 6.1, roedd hyn yn amrywio o lai na hanner yr ymatebwyr ym Mae Abertawe i oddeutu saith ymatebydd o bob deg yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

**Ffigur 6.1: Byddai aelod o'r teulu yn gwybod am y dymuniadau yn ôl rhanbarth**





Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau ag aelod o'r teulu uchaf ymysg pobl 35-54 oed ac isaf ymysg pobl 16-34 oed.

Roedd patrwm tebyg hefyd i'r gyfran o ymatebwyr a oedd yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod am eu dymuniadau petaent yn marw. Mae'r ddwy berthynas yn arwyddocaol (Ffigur 6.2).

**Ffigur 6.2: Byddai aelod o'r teulu yn gwybod am y dymuniadau yn ôl oed**




Sail: 1,006 o ymatebwyr.

Roedd cyfran uwch o lawer o fenywod (42 y cant) na dynion (33 y cant) wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn y gyfran a oedd yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod eu dymuniadau.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng graddfeydd cymdeithasol, gyda 43 o'r ymatebwyr ABC1 wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu o'i gymharu â 34 y cant o'r ymatebwyr C2DE. Ar ben hynny, roedd cyfran uwch o lawer o'r ymatebwyr ABC1 yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod am eu dymuniadau petaent yn marw (66 y cant) na'r ymatebwyr C2DE (58 y cant).

## Atodiad A: Methodoleg

Mae sampl Arolwg Omnibws Cymru wedi cael ei ddylunio i gynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Mae'r uned samplo yn Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) a chaiff 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru eu dewis â thebygolrwydd sy'n gyfrannol i'r boblogaeth o drigolion, ar ôl haenu yn ôl awdurdod unedol a graddfa gymdeithasol.

Ym mhob pwynt samplo, defnyddir rheolyddion cwota demograffig ar gyfer oed a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw ar gyfer dewis ymatebwyr. Bydd cwotâu yn cael eu gosod i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt sydd wedi cael ei ddewis.

Mae'r data wedi cael ei bwyso yn ôl grŵp oed mewn rhyw mewn grŵp awdurdod unedol i roi'r amlder iawn i bob cell yng nghyfanswm Cymru a ddaw o ganlyniadau Cyfrifiad 2001.

Bydd sampl ffres o unigolion a lleoliadau cyfweld yn cael eu dewis ar gyfer pob arolwg ac ni chynhelir cyfweliad â mwy nag un unigolyn o bob cartref. Caiff y cyfweliadau eu cynnal wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr drwy ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweld Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur).

Cafodd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg ei wneud rhwng 14^eg^ a 24^ain^ Mehefin 2012, a chynhaliwyd rhai cyfweliadau ar ôl y dyddiad hwn. At ei gilydd cynhaliwyd 1,006 o gyfweliadau wyneb yn wyneb a chawsant eu dadansoddi ar gyfer yr arolwg llinell sylfaen hwn.

### Samplo cwota cyfrannol

Wrth brofi data'r arolwg ar gyfer arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplo cwota cyfrannol (nid samplo ar hap), ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol go iawn, a bod yn fanwl gywir[4]. Felly, pan ddisgrifir bod gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu gwahaniaeth sydd ag arwyddocâd ffug-ystadegol ar y lefel cyfwng 95 y cant. Mae hyn yn golygu, petai'r arolwg yn defnyddio sampl ar hap, byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20.

### Dadansoddiad chi-sgwâr

Mae'r prawf chi-sgwâr wedi cael ei ddefnyddio yn y dadansoddiad i bennu a yw'r berthynas a welir rhwng dau newidyn categori yn y sampl (hy y 1,006 o bobl a gafodd eu cyfweld) yn debyg o adlewyrchu cysylltiad go iawn yn y boblogaeth (hy y boblogaeth oedolion 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru).

[4] Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

## Diffiniad o'r rhanbarthau

Mae Tabl A.1, isod, yn dangos yr awdurdodau unedol yng Nghymru sydd yn y rhanbarthau a ddefnyddir yn y dadansoddiad.

**Tabl A.1: Diffiniad o'r rhanbarthau**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin |
| Bae Abertawe | Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cymoedd | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg<br>Caerdydd<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy |

## Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol

Mae Tabl A.2, isod, yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiad graddfeydd cymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

**Tabl A.2: Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol**

| Graddfa gymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Proffesiynol, gweinyddol neu reoli uchel |
| B | Proffesiynol, gweinyddol neu reoli canolig |
| C1 | Goruchwylio, clercol a rheoli, gweinyddol neu broffesiynol iau |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw medrus |
| D | Gweithwyr llaw di-grefft a lled-fedrus |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu'r raddfa isaf, di-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |

## Maint yr is-samplau

Mae Tabl A.3, isod, yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddir yn y dadansoddiad. Caiff nifer yr ymatebwyr eu rhoi ar gyfer samplau wedi'u pwyso a heb eu pwyso.

**Tabl A.3: Niferoedd is-sampl yn ôl rhanbarth, oed, rhyw a graddfa gymdeithasol**

| Is-sampl | Sampl heb ei bwyso | Sampl wedi'i bwyso |
|---|---|---|
| **Rhanbarth** | | |
| Gogledd Cymru | 235 | 231 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 172 | 171 |
| Bae Abertawe | 121 | 170 |
| Y Cymoedd | 200 | 182 |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | 278 | 251 |
| **Oed** | | |
| 16 – 34 oed | 304 | 294 |
| 35 – 54 oed | 314 | 353 |
| 55+ oed | 388 | 359 |
| **Rhyw** | | |
| Dynion | 462 | 481 |
| Menywod | 544 | 525 |
| **Graddfa gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 464 | 463 |
| C2DE | 538 | 538 |

# Atodiad B: Yr Holiadur (Saesneg yn unig)

**Organ Donation Omnibus Questions**
**June 2012**

And now changing the subject, I'd like to ask you a few questions about organ donation.

Q1. Can you tell me how you think the current system of organ donation works – that is, how do you think organs get donated?

PROBE FOR DETAIL: Anything else?

OPEN ENDED

**Could you read this card please**

SHOWCARD
Currently people in Wales can opt in to join the NHS Organ Donor Register if they wish to donate their organs after their death. It's normal practice for doctors to let relatives know if the person has opted in and doctors will encourage families to accept that, but will not proceed if families will not agree to the process. If you have not joined the Register, your family can consent to donate your organs after your death.

Q2. Are you aware of any proposed changes to the current organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q2a. How did you become aware of the proposed changes to the current organ donation system?

DO NOT PROMPT

On TV – news / programme
On TV advertising

On the radio – news / programme
On the radio – advertising

In a local newspaper – news / article
In a local newspaper – advertising

In a national Wales newspaper – news / article
In a national Wales newspaper – advertising

In a national UK newspaper – news / article
In a national UK newspaper – advertising

Online / website – news item
Online / website – other

In a magazine

Poster
Leaflet
Someone told me

Other, please specify________________

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q3. Can you tell me how you think the system might change?

OPEN ENDED

**Please take a look at this card**

SHOWCARD
In Wales, the government is considering changing the organ donation procedure to a 'soft opt out' system. This will mean people will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue.

Q4. Before today, have you seen or heard anything about this proposal at all?

- Yes
- No
- Don't know

Q5. Which of these statements about proposed changes to the organ donation system in Wales best reflects your view?

REFER TO SHOWCARD IF NECESSARY: People will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue.

- I am in favour of changing to a system where people opt out of organ donation rather than opt in
- I am against changing to a system where people opt out of organ donation rather than opt in
- I need more information to decide
- Don't know

ASK IF IN FAVOUR OF CHANGE AT Q5

Q6a. Can you tell me why you are in favour of the change to an opt out system?

OPEN ENDED

ASK IF AGAINST CHANGE AT Q5

Q6b. Can you tell me why you are against the change to an opt out system?

OPEN ENDED

ASK IF NEED MORE INFORMATION AT Q5

Q6c. Can you tell me what additional information you need?

OPEN ENDED

Q7. If the new system of opting out was introduced, which of the following best describes what you think you would do?

SHOWCARD
- I would opt out of the organ donor register
- I'm already a donor (and would take no further action – i.e. remain a donor)
- I'm not a donor at the moment, but I **don't** think I'd opt out of being one
- Don't know

INTERVIEWER NOTE: If respondent without prompting mentions something other than the three answers on the card or don't know, please record here:

________________________________________________

Q8a/b/c/ Can you tell me why that is [ANSWER AT Q7]?

OPEN ENDED

Q9a. I'm going to read out some statements that people have said about organ donation. I'd like you to tell me to what extent you agree or disagree with the statements:

- The proposed 'soft opt out' system for Wales will result in more lives being saved
- Organ donation is a gift which the 'soft opt out' system will take away
- The 'soft opt out' system maintains freedom of choice because anyone can opt out from organ donation if they want to
- The 'soft opt out' system gives the government too much control

SHOWCARD
- Strongly agree
- Agree
- Neither agree nor disagree
- Disagree
- Strongly disagree

SHOWCARD

Q9b. In the event of a death, which of these do you believe should apply in respect of organ donation?

- The family should have the final say on whether a deceased person's organs are donated or not
- The deceased person's wishes about donating their organs or not should be respected no matter what the family thinks
- Don't know

Q10. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

Q11. In the event of your death do you think a family member would know your wishes in respect of organ donation?

- Yes
- No
- Don't know

Q12. And can you tell me if you are currently registered on the NHS Organ Donor Register?

- Yes
- No
- Don't know